

Cynghrair yr Amgylchedd – gweithio gyda'n gilydd

Canllawiau Atal Llygredd

Cynllunio Ymateb i Ddigwyddiad: PPG21

Cynhyrchir y canllawiau hyn ar y cyd gan Asiantaeth yr Amgylchedd ar gyfer Cymru a Lloegr, Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon ac Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban (SEPA), a elwir yn 'nyni' a 'ninnau' yn y fan hon. Ysgrifennwyd hwy yn unol â'r Cod Arfer Cyfarwyddyd ynghylch Rheoleiddio 2008 oddi wrth yr Adran dros Fenter a Diwygio Rheoliadol (BERR) – cyfeiriad 1.

Seilir Canllawiau Atal Llygredd (PPGs) ar ddeddfwriaeth berthnasol ac maent yn adlewyrchu arfer gorau cyfredol. Bydd dilyn y canllawiau yn eich helpu i reoli eich cyfrifoldebau amgylcheddol i atal llygredd a chydymffurfio â'r gyfraith.

Os byddwch yn achosi llygredd neu ganiatáu iddo ddigwydd, gallwch fod yn cyflawni trosedd. Pe digwydd hyn, tywysir ein hymateb gan ein polisi gorfodi ac erlyn.

1.0 Rhagarweiniad

Mae'r canllawiau hyn yn amlinellu arfer gorau ar gyfer cynhyrchu cynllun ymateb i ddigwyddiad er mwyn mynd i'r afael â digwyddiad amgylcheddol ar eich safle. Bydd dilyn cynllun o'r fath yn eich helpu i atal neu leihau difrod amgylcheddol pe ceir digwyddiad o'r fath. Mae'r canllawiau'n gosod allan:

- pam fod angen cynllun arnoch;
- pa wybodaeth y dylech ei chynnwys;
- pwy ddylai gael eu cynnwys yn y gwaith o'i gynhyrchu;
- pa weithdrefnau atodol y gallwch fod eu hangen er mwyn gweithredu'r cynllun;
- sut olwg ddylai fod ar y cynllun trwy ddarparu templed (ar ddiwedd y canllawiau hyn).

Anelir hwy at y safleoedd hynny nad oes ganddynt ddyletswydd statudol i baratoi cynlluniau o'r fath. Gellir eudefnysio er mwyn ychwanegu at gyfarwyddyd ar gyfer safleoedd a reolir o dan Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr 1999 (COMAH) – cyfeiriad 2, a Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol 2007 cyfeiriad 3. O dan y rheoliadau hyn mae rhwymedigaeth statudol yn bodoli i fod â chynllun ymateb i ddigwyddiad yn ei le.

Yn ogystal â defnyddio'r canllawiau hyn er mwyn cynhyrchu eich cynllun, dylech ymfyn am ragor o gyngor oddi wrth eich rheolydd ynghylch y gofynion penodol ar gyfer pob safle a weithredir dan y rheoliadau hyn. Yng Nghymru a Lloegr, byddwch gystal â chysylltu â'n Canolfan Genedlaethol Cysylltiadau Cwsmeriaid ar 08708 506 506. Yn yr Alban a Gogledd Iwerddon, byddwch gystal â chysylltu â'r rheolyddion yn y gwefannau a ddarparir. Mae gwefan NetRegs hefyd yn darparu cyfarwyddyd ynghylch gofynion cyfreithiol y rheoliadau hyn ym mhob gwlad yn y DU. Darparir rhestr o wefannau ar ddiwedd y canllawiau hyn.

1.1 Pwy ddylai ddarllen y canllawiau hyn?

Mae'r cyfarwyddyd hwn ar gyfer:

- gweithredwr safleoedd o eiddo diwydiannol a masnachol fel cymorth iddynt gynhyrchu cynllun ymateb i ddigwyddiad;
- sefydliadau, awdurdodau ac unigolion eraill y mae eu safle neu weithrediadau yn peri risg potensial i'r amgylchedd ac a ddylent fod yn berchen ar gynllun ymateb i ddigwyddiad;
- y Gwasanaeth Tân ac Achub ac eraill a fedrent fod yn gyfrannog yn y gwaith o gynhyrchu a/neu fod â diddordeb mewn cynlluniau o'r fath er enghraifft, yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch, yr Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau, Gwasanaeth Dadlygru'r Llywodraeth, swyddogion iechyd cyhoeddus ac yswirwyr/gwarantyddion.

Mae'r adran nesaf yn dweud wrthych sut i asesu'r risg y gall eich safle beri i'r amgylchedd a pha lefel o gynllun sydd ei angen arnoch er mwyn helpu i leihau'r risg hwnnw.

1.2 Pam cynhyrchu cynllun?

Mae gan lawer o safleoedd diwydiannol a masnachol y potensial i achosi cryn niwed amgylcheddol a fedrai fygwth cyflenwadau dŵr, iechyd cyhoeddus a bywyd gwyllt pe ceir digwyddiad amgylcheddol, er enghraifft, tân, ffrwydrad neu gollod. Mae'r rhain yn cynnwys safleoedd sydd yn:

- storio, defnyddio neu brosesu sylweddau gwenwynig a/neu lygrol fel cemegolion, olewau, bwyd neu ddiodydd;
- cynnwys deunyddiau peryglus fel asbestos o fewn adeiladwaith yr adeilad;
- cynnwys neu storio deunyddiau a fyddent yn achosi i gynhyrchion peryglus gael eu creu pe ceid tân, er enghraifft, mwg gwenwynig o losgi plastig.

Mae pethau a fedrent achosi digwyddiadau amgylcheddol ar eich safle yn cynnwys:

- derbyn cyflenwadau a defnyddio deunyddiau;
- gorlenwi cynhwyswyr cyfyngiant;
- cyfarpar neu offer yn methu;
- methiant o ran cyfyngiant;
- tanau, ffrwydradau neu fethiant i ddal dŵr ymladd tân;
- cysylltiadau anghywir mewn carthffosydd a phibellau;
- deunyddiau anghymarus yn dod i gysylltiad â'i gilydd;
- adweithiau direolaeth;
- gollwng elifiant crai neu wedi'i drin yn rhannol;
- fandaliaeth;
- llifogydd dros ran o'ch safle neu eich holl safle.

Gallai unrhyw un o'r digwyddiadau hyn effeithio ar:

- systemau draenio, dyfroedd wyneb, ecosystemau dyfrol, dŵr daear a phridd;
- ansawdd aer trwy gynhyrchu tartau gwenwynig a llygrwyr hedegog a allant wneud niwed i iechyd pobl, anifeiliaid gwyllt a dof ac ecosystemau;
- pelydriad thermol a all wneud niwed i bobl a'r amgylchedd.

Gall yr effeithiau ymddangos ar unwaith a phara am gyfnod hir; gallwch chi fod yn gyfrifol am gostau glanhau. Gall hyn fod yn ddrud, yn arbennig os ydych yn halogi dŵr daear. Mae'n bosibl y bydd costau eraill yn ogystal, yng nghyswllt ein hymateb i ddigwyddiad a/neu ddirwyon neu gostau trwy'r llysoedd troseddol a/neu sifil. Gall enw busnes da eich cwmni ddiodeff.

Er mwyn canfod y risg a berir gan eich safle i'r amgylchedd, argymhellwn eich bod yn gwneud asesiad sgrinio risg syml. Mae ein cyfarwyddyd Ppg28 – Llosgi dan Reolaeth (cyfeiriad 4) yn darparu cyngor manwl ynghylch sut i wneud hyn ac mae'n berthnasol i bob safle, nid yn unig y rheiny lle mae llosgi dan reolaeth yn berthnasol.

Lle mae'r asesiad hwn yn dangos y medrai eich safle achosi digwyddiad amgylcheddol gallwch leihau tebygrwydd diodeff digwyddiad o'r fath trwy ddilyn ein Canllawiau Atal Llygredd.

Bydd ein cyfarwyddyd Mae'n Talu i Atal Llygredd – Rhoi Trefn ar eich Safle (cyfeiriad 6) a Ppg1 – Canllaw Gyffredinol i Atal Llygredd (cyfeiriad 7) yn rhoi cyfarwyddyd i chi ynghylch atal llygredd yn gyffredinol a storio deunyddiau yn gywir.

Yn yr un modd bydd ein Ppg18 – Rheoli dŵr tân a cholledion mawr (cyfeiriad 5) yn eich helpu i nodi'r offer a'r technegau gallwch eu defnyddio er mwyn lliniaru effeithiau tân neu gollod fawr ar eich safle.

Ond ni fedrwch gael gwared yn llwyr ar y risg o ddigwyddiad a fedrai achosi llygredd. Oherwydd hyn, argymhellwn fod pob safle'n cynhyrchu cynllun ymateb i ddigwyddiad. Nid oes rhaid iddo fod yn gymhleth, medrai fod yn syml iawn, oherwydd dylai maint y risg ddylanwadu ar faint, cymhlethdod a manylion eich cynllun.

Gall eich cynllun wneud dim ond rhychwantu sut byddwch yn mynd i'r afael â digwyddiadau amgylcheddol neu fod yn rhan o gynllun ymateb i ddigwyddiad mwy cynhwysfawr ar gyfer y safle, er enghraifft cynlluniau ar y safle ac oddi ar y safle COMAH neu gynlluniau argyfwng COMAH.

Gall y cynllun ymateb i ddigwyddiad gefnogi gwaith Fforymau Hydwythedd Lleol yng Nghymru a Lloegr, yn yr Alban, y Grŵp Cyd-drefnu Strategol ac yng Ngogledd Iwerddon, Fframwaith Argyfyngau Sifil Gogledd Iwerddon a datblygiad eu cofrestrau risg lleol sy'n rhwymedigaeth statudol o dan Ddeddf Argyfyngau Sifil 2004 (cyfeiriad 8) ac a geir yng ngwefan Hydwythedd y DU yn y rhestr.

Gall yr wybodaeth yn y cynllun helpu'r ymatebwyr argyfwng yn ogystal i ddarparu eu cynllun ymateb hwythau ar gyfer eich safle, er enghraifft Cynlluniau Gweithredol Ymateb i Ddigwyddiad y Gwasanaeth Tân ac Achub neu 7(2) (d) – cyfeiriad 9 ac yn y rhestr o wefannau.

2.0 Y cylchred cynllunio


Y cylchred cynllunio yw'r broses barhaol o asesu risg eich safle a pharatoi ar gyfer digwyddiadau. Ategir y broses gan weithdrefnau sy'n sicrhau fod eich cynllun yn gweithio (dilysu), eich bod yn ei adolygu a'i ddiwygio'n rheolaidd a bod eich gweithwyr a'ch contractwyr yn barod ac wedi'u hyfforddi. Elfennau allweddol y cylchred cynllunio yw:

- paratoi'r cynllun;
- ei roi ar waith ac ymateb;
- profi/hyfforddi yn y cynllun;
- adolygu a hyfforddi.

Dengys y diagram canlynol sut mae pob cam o'r cylchred cynllun yn cysylltu ag ac yn cefnogi'r cam nesaf. Mae hyn yn sicrhau eich bod yn diweddarau'r cynllun fel y bo'r angen, ei fod yn aros yn effeithiol a'ch bod yn ei gyfathrebu i'ch gweithwyr a chontractwyr sy'n dangos eu bod yn ei ddeall.

Dengys Diagram 1 y saith cam yn y Cylchred Cynllunio fel proses o welliant parhaol.

Diagram 1 – Y Cylchred Cynllunio



2.1 Paratoi

Mae'r adrannau a ganlyn yn awgrymu'r math o wybodaeth byddwch ei hangen er mwyn cwblhau eich cynllun. Gellir canfod y templed awgrymedig ar ddiwedd y canllawiau hyn.

2.1a Tudalen flaen

Dylai hon roi:

- manylion am y safle: enw, cyfeiriad post llawn, cyfeirnod grid cenedlaethol/lleoliad ac unrhyw fanylion cysylltu;
- crynodeb o'r prif weithgareddau busnes a wneir ar y safle;
- amcanion y cynllun;
- dyddiad y cymeradwywyd y cynllun ar ei wedd derfynol, gan bwy a rhif y fersiwn;
- y sawl sy'n gyfrifol am ei adolygu, ei ddsbarthu a'i weithredu;
- rhestr dosbarthu o'ch gweithwyr a'r cyrff allanol sy'n dal copïau.

2.1b Rhestrau cysylltu mewnol ac allanol

Dylai'r rhestr cysylltu allanol gynnwys manylion cysylltu 24 awr ar gyfer yr holl gyrff neu gwmnïau hynny y medrai fod angen iddynt fod yn gyfrannog yn ystod neu ar ôl digwyddiad. Er enghraifft:

- gwasanaethau brys;
- eich rheolydd amgylcheddol;
- awdurdod lleol;
- cwmni/awdurdod dŵr lleol;
- yr Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch;
- darparwyr gofal iechyd lleol/Asiantaeth Gwarchod Iechyd;
- contractwyr glanhau arbenigol;
- ffynonellau cyngor arbenigol e.e. Gwasanaeth Dadlygru Llywodraeth y DU, y Ganolfan Genedlaethol Argyfyngau Cemegolion (gweler y rhestr o wefannau);
- cyflenwyr a gwneuthurwyr cemegolion.

Bydd y rhestr cysylltu fewnol yn adlewyrchu trefn sefydliadol eich cwmni a'r gweithdrefnau ymateb sydd gennych yn eu lle. Awgrymiadau yn unig yw'r enwau/swyddi yn y templed.

Os nad oes unrhyw weithwyr ar eich safle y tu allan i oriau gwaith arferol, rhaid i chi nodi manylion cysylltu ar gyfer dalwyr allweddau.

2.1c Rhestr cemegolion, cynhyrchion a gwastraff y safle

Dylech gadw cofnod i'r funud o bob sylwedd a storir ar y safle, ynghyd â syniad o'r cyfaint mwyaf sy'n debygol o gael ei storio. Atodwch ddalenni data cynnyrch ac asesiadau COSHH – cyfeiriad 10 ar gyfer unrhyw sylweddau sy'n peri risg i bobl a'r/neu'r amgylchedd.

Dylech farcio ar y map o'r safle unrhyw storfeydd, swmpgynhwyswyr storio, drymiau neu gynhwyswyr a ddefnyddiwch er mwyn storio olewau, cemegolion neu ddeunyddiau eraill a fedrent achosi llygredd. Os ydych yn storio olewau neu gemegolion neu eu cadw yn rheolaidd i ffwrdd o osodiadau neu ardaloedd storio sefydlog mewn unrhyw gyfaint sylweddol (er enghraifft, mewn ardaloedd cynhyrchu), dylech ddangos ymhle y maent ar y map o'r safle. Mae ein PPGs cyfeiriadau 11 a 12 yn darparu cyngor ynghylch storio'n ddiogel. Os oes gennych linellau proses gemegol, cynhwyswch y rhain ar y cynllun. Sicrhewch y gall pob ymatebwr argyfwng gael gafael ar y rhestr ac, os oes modd, dosbarthwch hi fel rhan o'ch proses o gynllunio am argyfwng.

2.1d Rhestr offer atal llygredd

Cofnodwch yr offer a'r deunyddiau sydd gennych ar y safle er mwyn mynd i'r afael â digwyddiadau o lygredd – cyfeiriadau 5 a 6. Er enghraifft:

- deunyddiau amsugol;
- matiau/caeadau draenïau;
- rhwystrau pibellau;

- trawstiau;
- pypbiau;
- tros-ddrymiau.

Os oes angen hyfforddiant arbennig er mwyn defnyddio unrhyw offer, cynhwyswch fanylion cysylltu aelodau o'r staff sydd wedi'u hyfforddi i'w ddefnyddio.

2.1e Map o'r safle

Dylai hwn fod yn ddiagram clir o'r safle sy'n dangos ei gynllun a manylion mynediad, ynghyd â llun sghematig o drefniadau draenio'r safle. Mae'r nodweddion y dylech eu dangos fel a ganlyn:

- cynllun yr adeiladau;
- llwybrau mynediad a phwyntiau cyfarfod ar gyfer y gwasanaethau brys;
- lleoliad ardaloedd prosesu ac unrhyw gyfleusterau trin ar y safle ar gyfer elifiant masnach neu garthion domestig;
- ardaloedd neu gyfleusterau byddwch yn eu defnyddio er mwyn storio deunyddiau crai, cynhyrchion a gwastraffau (cynhwyswch fanylion ynghylch meintiau tanciau a chynhyrchion a storir);
- ardaloedd o fewn bwnd, gyda manylion y cynhyrchion a storir ynddynt a'u cynhwysedd dargadw amcangyfrifedig;
- lleoliad pob hydrant, 'blwch tân' ac offer a deunyddiau atal llygredd;
- unrhyw gwrs dŵr, tarddiant, dyfrdwl neu ffynnon a leolir o fewn neu ger y safle;
- ardaloedd o dir mandyllog neu heb ei droi;
- draeniad y safle – systemau draenio budr, wyneb ac elifiant masnach gan gynnwys nodweddion fel:
 - pwyntiau archwilio er mwyn canfod llygredd;
 - gwahanyddion/atalwyr olew – cyfeiriad 13 PPG2;
 - system cyfyngu ar ddŵr tân/colledion;
 - tanciau cydbwysu;
 - dyfeisiau rheoli llygredd (falfiau cau/lociau wedi'u gosod mewn draeniau);
 - ardaloedd cyfyngiant aberthol fel meysydd parcio;
 - ardaloedd eraill sy'n addas ar gyfer tanciau storio cludadwy, ar gyfer gosod rhwystrau mewn draeniau a storio dŵr tân dros dro.

Dylech roi disgrifiad byr o sut mae'r holl gyfleusterau'n gweithredu a sicrhau eu bod wedi'u labelu'n glir uwch ben y ddaear (gweler adran 2.2).

2.1f Sut i gynhyrchu cynllun draenio

Dylech ddefnyddio'r nodweddion safonol/confensiynol o gynlluniau draenio. Bydd hyn yn ei gwneud yn haws i gyrrff eraill eu defnyddio ac i'ch gweithwyr chi eu deall:

- Defnyddiwch goch ar gyfer carthffosydd budr.
- Defnyddiwch las ar gyfer carthffosydd dŵr wyneb, cyrsiau dŵr a ffosydd cerrig.
- Defnyddiwch yr un confensiwn ar gyfer caeadau draeniau a theclynnau gafael.
- Rhwch rif i bob un o'r caeadau draeniau fel cymorth i'w hadnabod.
- Dangoswch y gwahaniaeth rhwng systemau ar wahân a rhai cyfunol (C Coch = Cyfunol).
- Marciwch leoliad, dyfnder a manylion adeiladu unrhyw ffosydd cerrig neu ddyfnder ar gyfer dyfrdyllau a ffynhonnau.
- Dangoswch gyfeiriad y llif ar gyfer bob carthffos.
- Nodwch y weithfa trin carthion/yr orsaf pwmpio carthion y mae eich safle'n cysylltu â hi.
- Nodwch bob arllwysfa dŵr wyneb o'r safle.
- Nodwch fannau addas ar gyfer gosod rhwystrau rheoli llygredd neu ar gyfer codi argae naill ai wrth yr arllwysfeydd neu ar y cwrs dŵr sy'n derbyn.
- Ystyriwch osod pwyntiau angori rhwystrau sefydlog mewn lleoliad addas, gan gymryd cyflyrau llif posibl i ystyriaeth.

Wrth lunio eich cynllun draenio, defnyddiwch y cyfle hwn i chwilio am unrhyw gysylltiadau anghywir o'ch safle, er enghraifft, carthffos fudr sy'n cysylltu â neu sydd â dolen gyswllt i gwrs dŵr. Mae hyn yn anghyfreithlon a gall hefyd eich achosi i ymateb yn anghywir yn ystod colled.

Mewn llawer i achos, bydd angen cynlluniau draenio ychwanegol arnoch er mwyn darparu gwybodaeth fanwl. Dylech atodi'r rhain i'ch cynllun ymateb a chyfeirio atynt ynddo.

2.2 Rhoi ar waith ac ymateb

Unwaith eich bod wedi ysgrifennu eich cynllun, datblygwch weithdrefnau argyfwng ategol er mwyn gwirio fod y cynllun yn gweithio os ceir digwyddiad. Sicrhewch fod yr holl weithwyr a chontractwyr perthnasol yn gwybod am y gweithdrefnau hyn a'r cynllun.

Dyma enghreifftiau o'r wybodaeth y dylid ei chynnwys:

- gweithdrefnau ar gyfer rhoi gwybod i staff allweddol;
- systemau sefyll yn barod/trefn gweithio;
- rolau a chyfrifoldebau wedi'u diffinio'n glir;
- enwau staff a chontractwyr sydd wedi'u hyfforddi i ymateb i ddigwyddiadau;
- mathau o, a lleoliadau, offer ymateb mewn argyfwng sydd ar gael a'r offer gwarchodol personol (PPE) y dylid ei wisgo;
- system o gyd-drefnu ymateb;
- cynhorthwy oddi ar y safle.

Bydd lefel wirioneddol eich ymateb yn dibynnu ar eich safle. Ystyriwch beth fedrai ddigwydd ar eich safle fel y senario gwaethaf oll a datblygu gweithdrefnau er mwyn mynd i'r afael ag ef. Mae'r rhestr wirio isod yn cynnig nifer o awgrymiadau ynghylch gweithdrefnau.

Rhestr Wirio Gweithdrefnau

- Diffiniwch yn glir yr amgylchiadau pryd dylid rhoi'r cynllun ar waith. Bydd hyn y dibynnu ar natur eich safle a'r math o ddigwyddiad.
- Sicrhewch fod pob aelod perthnasol o'r staff yn gwybod pryd a sut i gysylltu ag ymatebwyr argyfwng eraill: y gwasanaethau brys, nyddi, yr awdurdod lleol, yr ymgymwrwr carthffosiaeth a chyrrff eraill a nodir yn eich cynllun argyfwng.
- Ystyriwch yr effaith y medrai digwyddiad ar eich safle ei gael ar yr amgylchedd y tu allan i ffin eich safle: eiddo gerllaw, echdynwyr i lawr yr afon, tir amaethyddol neu safleoedd sy'n sensitif yn amgylcheddol. Unwaith eich bod wedi nodi'r rhain, cytunwch weithdrefnau cysylltu gyda nhw os oes modd.
- Rhowch weithdrefnau symud staff yn eu lle – bydd adran cynllunio argyfwng eich awdurdod lleol yn eich helpu i wneud hyn.
- Nodwch unrhyw ddulliau arbennig sydd eu hangen arnoch er mwyn mynd i'r afael â sylweddau sy'n peri risg benodol i iechyd neu'r amgylchedd.
- Datblygwch strategaeth ymladd tân gyda'ch gwasanaeth tân ac achub lleol: os yw llosgi dan reolaeth yn ddewis y cytunwyd arno, datganwch hyn yn glir. Mae'r un peth yn wir am ddefnyddio ewyn (gweler cyfeiriad 4 am ragor o gyngor).
- Dylai staff gael eu hyfforddi i ddefnyddio citiau colledion, rhwystrau draeniau ac offer rheoli llygredd arall a gweithredu dyfeisiau rheoli llygredd.
- Nodwch weithdrefnau ar gyfer adennill cynnyrch a sarnwyd ac ymdrin yn ddiogel ag unrhyw wastraff sy'n gysylltiedig â'r digwyddiad a'i waredu'n gyfreithlon.
- Dylech fod â staff wrth law sydd wedi'u hyfforddi i ateb ymholiadau gan y wasg.

2.3 Profi cynllun

Unwaith fod eich cynllun wedi'i gwblhau, rhowch ef ar brawf yn rheolaidd drwy gynnal ymarferion; mewn rhai safleoedd, er enghraifft safleoedd COMAH, mae hyn yn ofyn cyfreithiol. Mae ymarferion yn hanfodol er mwyn:

- dilysu'r cynllun cyfan – a yw'n gweithio?;
- datblygu galluoedd eich staff a chontractwyr o ran ymateb i argyfwng;
- rhoi eich gweithdrefnau safonol ar brawf.

Gallwch lunio ymarferion i fod yn rhai wedi'u seilio ar drafodaeth, ar fwrdd neu fyw. Gallwch eu trefnu er mwyn rhoi'r cynllun cyfan ar brawf neu elfennau critigol o'i fewn fel:

- rhestrau cysylltu;
- y broses o'i roi ar waith;
- offer;
- rheoli gwybodaeth.

Lle mae adnoddau'n caniatáu, cynhwyswch bartneriaid/ymatebwyr allanol gan fod hyn yn helpu i ddilysu eich cynllun.

Dylai pa mor aml y rhoi y cynllun ar brawf a chynnal ymarferion fod yn gysylltiedig â'r risg amgylcheddol a berir gan eich safle, trosiant staff, cyflwyno prosesau neu ddeunyddiau newydd a chanlyniadau o unrhyw ymarferion neu ddigwyddiadau blaenorol.

Bydd effeithiolrwydd unrhyw gynllun ymateb i ddigwyddiad safle yn dibynnu ar hyfforddi staff. Dylech sicrhau fod pob aelod o'r staff a chontractwyr sy'n gweithio ar y safle yn gwybod am y cynllun y dylech drefnu ei fod ar gael yn electronig ac ar bapur. Dylai pob aelod o'r staff wybod eu rôl a'u cyfrifoldebau hwy a'r gweithdrefnau perthnasol pe ceir digwyddiad (gweler adran 2.2). Dylech ddiweddarau ac adolygu cofnodion o hyfforddiant staff yn rheolaidd.

Dylai'r hyfforddiant a roir i'ch staff gynnwys:

- ymwybyddiaeth o'r potensial ar gyfer niwed i bobl a'r amgylchedd o'r deunyddiau a ddelir ar y safle;
- gwybodaeth ynghylch sensitifrwydd yr amgylchedd o amgylch eich safle;
- cyfrifoldebau amgylcheddol eich busnes;
- defnyddio'r offer gwarchodol personol cywir ac unrhyw hyfforddiant iechyd a diogelwch addas ac/neu angenrheidiol;
- gweithdrefnau adrodd os oes perygl o halogi dŵr wyneb, dŵr daear neu dir;
- adrodd i'r ymgwymerwr dŵr/carthffosiaeth lleol os ceir gollyngiad i'r garthffos fudr neu gyfunol;
- defnyddio offer glanhau colledion neu adeiladweithiau a/neu ddyfeisiau atal llygredd ar y safle yn ddiogel ac yn gywir;
- ymdrin yn ddiogel â deunyddiau a gwastraffau wedi'u halogi sy'n deillio o ddigwyddiad a'u gwaredu yn gyfreithlon, gan gynnwys trefniadau ar gyfer defnyddio contractwyr a gwasanaethau arbenigol;
- dadlygru addas a diogel.

2.4 Adolygu a diweddarau

Rhaid i'ch cynllun barhau i fod yn effeithiol ac i'r funud felly cofnodwch unrhyw wersi a ddysgwyd o ymarferion neu ddigwyddiadau go iawn mewn sesiynau adrodd yn ôl yn dilyn ymarferion/digwyddiadau. Defnyddiwch argymelliadau o'r sesiynau adrodd yn ôl neu a wneir gan staff a chontractwyr er mwyn gwella eich cynllun. Hyd yn oed os nad ydych wedi cynnal ymarfer, mae'n arfer da i adolygu'r cynllun yn rheolaidd. Argymhellwn y dylid gwneud hyn o leiaf unwaith bob 3–4 blynedd (yn unol â chyfarwyddyd y Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol a COMAH) a chyfathrebu pob newid i'ch staff ac ymatebwyr eraill).

3.0 Gwastraff

Bydd deunydd gwastraff sy'n gysylltiedig â digwyddiad yn dod o dan y Ddyletswydd o Ofal – cyfeiriad 14. Mae hyn yn golygu bod gennych ddyletswydd o ofal i sicrhau nad yw unrhyw wastraff a gynhyrchir gan y digwyddiad yn dianc o'ch rheolaeth a'ch bod yn ei waredu'n gyfreithlon, yn ddiogel ac yn gywir.

Rhaid i chi drosglwyddo gwastraff o'r fath i gludwr gwastraff cofrestredig awdurdodedig neu gludwr gwastraff eithriedig neu reolwr gwastraff. Rhaid i ddisgrifiad llawn o'r gwastraff a nodyn trosglwyddo gwastraff fynd gydag ef. Rhaid i'r gwastraff gael ei waredu'n gyfreithlon.

Os yw'r gwastraff yn wastraff peryglus (neu'n wastraff arbennig yn yr Alban) cyfeiriad 15, er enghraifft olewau gwastraff, asidau a/neu doddyddion, bydd gofynion ychwanegol yn berthnasol a rhaid i nodyn anfon fynd gydag ef pan gaiff eu symud. Rhaid i bawb sy'n ymwneud â throsglwyddo'r gwastraff hwn gadw copi o'r nodiadau anfon fel prawf ei fod wedi'i waredu'n gyfreithlon.

Rhaid i chi gynnwys gweithdrefnau yn eich cynllun er mwyn ymdrin ag unrhyw wastraff sy'n deillio o ddigwyddiad. Cysylltwch â ni am ragor o fanylion.

4.0 Dosbarthu ac adolygu

Os dymunwch, gallwch gysylltu â ni yn y swyddfa leol er mwyn trafod eich cynlluniau. Unwaith eich bod wedi rhoi sylw haeddiannol i unrhyw sylwadau perthnasol, dosbarthwch gopïau o'r cynllun gorffenedig i'r cyrff a gofnodir ar ei dudalen flaen. Cadwch gopi o'r cynllun ar y safle mewn man sy'n hawdd mynd ato i ffwrdd o'r prif adeilad fel porthdy neu 'flwch tân' un pwrpas y gall y gwasanaethau brys fynd ato'n hawdd. Dylai hysbysiad ym mynedfa'r safle ddangos lleoliad y cynllun.

Byddwn yn cadw unrhyw wybodaeth a ddarparir yn eich cynllun yn gyfrinachol. Gyda'ch caniatâd, gallwn drafod yr ymateb i ddigwyddiad gyda'r cyrff eraill sydd wedi derbyn copi o'r cynllun oddi wrthy'ch chi.

5.0 Cyfeiriadau

Mae pob un o'r nodiadau Canllaw Atal Llygredd (PPGs) ar gael yn:

- www.environment-agency.gov.uk/ppg
- www.sepa.org.uk/guidance/ppg
- www.ni-environment.gov.uk/ppg

Gallwch hefyd archebu'r pecyn Mae'n Talu i Atal Llygredd yn y cyntaf o'r gwefannau hyn.

1. **Côd Arfer Cyfarwyddyd ynghylch Rheoleiddio 2008 – o wefan yr Adran dros Fenter a Diwygio Rheoliadol (BERR) (yn y rhestr isod)**
2. **Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (COMAH) – Offeryn Statudol 1999 Rhif 743
Rheoliadau Rheoli Peryglon Damweiniau Mawr (Gogledd Iwerddon) 2000 SR 2000 Rhif 93
Cyfarwyddyd HSE – Ymateb i argyfwng a rheoli colledion – o wefan HSE
Cyfarwyddyd HSE – HS(G)191 Cynllunio Argyfwng ar gyfer Digwyddiadau Mawr Rheoliad Rheoli Peryglon
Damweiniau Mawr 1999**
3. **Rheoliadau Caniatáu Amgylcheddol (Cymru a Lloegr) 2007 (SI2007 Rhif 3538)**
4. **PPG28: Llosgi dan Reolaeth**
5. **PPG18: Rheoli Dŵr Tân a Cholledion Mawr**
6. **Pecyn a DVD Mae'n Talu i Atal Llygredd – o wefan Asiantaeth yr Amgylchedd**
7. **PPG1: Canllaw Gyffredinol i Atal Llygredd**
8. **Deddf Argyfyngau Sifil 2004 (c36) ac arweiniad byr i Argyfyngau Sifil: cyhoeddiad Swyddfa'r Cabinet**
9. **Deddf y Gwasanaeth Tân ac Achub 2004**
10. **Rheoliadau Rheoli Sylweddau sy'n Peryglu Iechyd 2002 (SI Rhif 2267) (fel y'u diwygiwyd). Côd Arfer
Cymeradwy a chyfarwyddyd L5 (Pumed argraffiad) Llyfrau HSE 2005. ISBN 0 7176 2981 3**
11. **PPG2: Storio Olew Uwch Ben y Ddaear**
12. **PPG26: Storio a thrin drymiau a swmpgynhwyswyr canolraddol**
13. **PPG3: Defnyddio a dylunio Gwahanyddion Olew mewn Carthffosydd Dŵr Wyneb**
14. **Rheoli Gwastraff, Y Ddyletswydd o Ofal, Côd Arfer (Diwygiwyd 1996). Y Llyfrfa. ISBN 0 a – 11–753210X**
15. **Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru a Lloegr) 2005; SI 894; ISBN 0 110726 855
Rheoliadau'r Rhestr Gwastraffau (Lloegr) 2005; SI 2005 895; ISBN 0110726847
Rheoliadau'r Rhestr Gwastraffau (Lloegr) (Diwygiad) 2005; SI 2005 1673; ISBN 0010730011
Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Cymru) 2005; SI 2005 1806 (W.138); ISBN 0110911717
Rheoliadau'r Rhestr Gwastraffau (Cymru) 2005; SI 2005 1820 (W.148); ISBN 0110911725
Rheoliadau Gwastraff Peryglus (Gogledd Iwerddon) 2005; SR 300; ISBN 0 33796 064 X
Rheoliadau'r Rhestr Gwastraff (Gogledd Iwerddon) 2005; SR 301; ISBN 0 33796 095 X
Rheoliadau Gwastraff Arbennig 1996; SI972; ISBN 0 11 054565 6
Rheoliadau Gwastraff Arbennig Diwygiedig (Yr Alban) 2004; SSI 112; ISBN 0 11069 0303**

Ffynonellau defnyddiol eraill o wybodaeth

Llawlyfr y Gwasanaeth Tân ac Achub Cyfrol 2 Gweithrediadau'r Gwasanaeth Tân – Gwarchodaeth Amgylcheddol, Y Llyfrfa. ISBN 978 0 11 341316 4

CIRIA 164

CIRIA Adroddiad 164, 1997, P A Mason, H J Amies, P R Edwards, G Rose, G Sangarapillai, Dylunio systemau cyfyngiant ar gyfer atal llygredd dŵr o ddiwydiadau diwydiannol. ISBN 0 86017 476 X

Safonau diogelwch ac amgylcheddol ar gyfer safleoedd storio tanwydd, grŵp Gorchwyl Safonau Buncefield (BSTG) Adroddiad terfynol – Gorffennaf 2007: www.hse.gov.uk/comah/buncefield

Gwefannau defnyddiol

Asiantaeth yr Amgylchedd: www.environment-agency.gov.uk

Asiantaeth yr Amgylchedd Gogledd Iwerddon: www.ni-environment.gov.uk

Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd yr Alban: www.sepa.org.uk

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig: www.defra.gov.uk

Adran Weithredol Iechyd a Diogelwch: www.hse.gov.uk

Adroddiad Buncefield: www.buncefieldinvestigation.gov.uk

Asiantaeth Forol a Gwylwyr y Glannau: www.mcga.gov.uk

Canolfan Genedlaethol Argyfyngau Cemegol: www.the-ncec.com

Gwasanaeth Dadlygru Llywodraeth y DU: www.defra.gov.uk/gds

Cymunedau a Llywodraeth Leol (Cymru a Lloegr): www.communities.gov.uk

Hydwythedd y DU: Ysgrifenyddiaeth Argyfyngau Sifil: www.ukresilience.info ac www.preparingforemergencies.gov.uk

Llywodraeth yr Alban: www.scotland.gov.uk

NetRegs: www.netregs.gov.uk

Cymdeithas Ymchwil a Gwybodaeth y Diwydiant Adeiladu: www.ciria.org.uk

Y Llyfrfa: www.tsoshop.co.uk

Adran Menter a Diwygio Rheoliadol: www.berr.gov.uk

Cyswllt Busnes – Cyfarwyddyd Ymarferol ar gyfer busnes: www.businesslink.gov.uk

Ein manylion cyswllt

Asiantaeth yr Amgylchedd
www.environment-agency.gov.uk

PENCADLYS
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4UD
Ffôn: 01454 624 400
Ffacs: 01454 624 409

**Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd
yr Alban**
www.sepa.org.uk

SWYDDFA GORFFORAETHOL
Erskine Court
The Castle Business Park
Stirling FK9 4TR
Ffôn: 01786 457 700
Ffacs: 01786 446 885

**Asiantaeth yr Amgylchedd
Gogledd Iwerddon**
www.ni-environment.gov.uk

PENCADLYS
17 Antrim Road
Lisburn
County Antrim BT28 3AL
Ffôn: 028 9262 3100
Ffacs: 028 9267 6054

Yng Nghymru a Lloegr, byddwch gystal â chysylltu â'r Ganolfan Genedlaethol Cysylltiadau Cwsmeriaid (NCCC) ar 08708 506 506 neu yn enquiries@environment-agency.gov.uk am fanylion ynghylch unrhyw un o'r pynciau a grybwyllir yn y ddogfen hon. Yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon defnyddiwch y wefan ar gyfer pob rheoleiddiwr.



Yr Amgylchedd yn gyntaf: Argreffir y cyhoeddiad hwn ar bapur wedi'i wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Defnyddir isgynhyrchion o wneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrteithiwr, gwneud sment a chynhyrchu trydan.

Templed ar gyfer cynllun ymateb i ddigwyddiad

Defnyddiwch y templed hwn i'ch helpu i nodi'r holl wybodaeth berthnasol sydd arnoch ei hangen er mwyn ymateb yn effeithiol i ddigwyddiad ar eich safle. Ni fwriedir ef fel disgrifiad o'r holl weithdrefnau sydd arnoch eu hangen er mwyn rhoi'r cynllun ar waith. Dylech nodi, datblygu a chofnodi'r rhain ar wahân trwy ddefnyddio'r cyfarwyddyd yn Adran 2.2 – Rhoi ar waith ac ymateb.

Arweiniad yn unig yw'r templed a gellir ei newid er mwyn cymryd i ystyriaeth unrhyw ofynion penodol ar gyfer eich safle chi ac anghenion gweithredol. Argymhellwn eich bod yn trafod eich cynllun lle y bo modd gyda chyrrff allanol perthnasol yn arbennig y gwasanaethau brys a ninnau er mwyn i bawb fedru cydweithredu yn y dull gorau yn ystod digwyddiad. Unwaith y caiff ei roi yn ei le gallwch ei ddefnyddio fel sail ar gyfer cefnogi'r cylchred cynllunio a darparu ymateb effeithiol a diogel parhaus i ddigwyddiadau.

Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad

Enw a lleoliad y cwmni/Lleoliad y safle

NGR:

Cyfeiriadau map:

Cyswllt i'r map:

Golwg gyffredinol dros y gweithgareddau ar y safle:
Cynhwyswch y nifer o weithwyr ar adegau gwahanol o'r dydd.

Disgrifiad o'r ardal o'ch amgylch:

Dyddiad a fersiwn o'r cynllun:

Enw neu swydd y sawl sy'n gyfrifol am lunio/
cymeradwyo'r cynllun:

Cynllun Ymateb i Ddigwyddiad

Dyddiad adolygu:

Dyddiad yr ymarfer nesaf:

Amcanion y cynllun:

Rhestr y cyrff allanol yr ymgynghorwyd â nhw wrth baratoi'r cynllun gyda'u manylion cysylltu:

Rhestr dosbarthu, nifer y copïau o'r cynllun a'r fersiwn:

Cysylltiadau allanol

Cyswllt	Oriau gwaith	Tu allan i oriau gwaith
Gwasanaethau brys (Tân/Heddlu/ Ambiwylans)		
Heddlu lleol		
Ysbyty lleol/Ymddiriedolaeth GIG		
Rheolydd Amgylcheddol Llinell ddigwyddiadau		
Rheolydd Amgylcheddol Cyswllt lleol		
Adran Cynllunio am Argyfwng yr Awdurdod Lleol		
Cwmni/awdurdod dŵr lleol		
Cwmni trydan		
Cwmni nwy		
Contractwr rheoli gwastraff		
Cyngor arbenigol		
Contractwr glanhau arbenigol		

Cysylltiadau mewnol

Enwau a swyddi staff a awdurdodwyd/hyfforddwyd i roi'r cynllun ar waith a'i gyd-drefnu		
Staff eraill:		
Rheolwr-gyfarwyddwr		
Rheolwr y safle		
Rheolwr Amgylcheddol		
Rheolwr Iechyd a Diogelwch		

Rhestr Offer Atal Llygredd (adnoddau ar ac oddi ar y safle)

Math	Lleoliad	Cyfaint	Cyswllt o blith y staff

Cynllun Safle

Mae Adrannau 2.1e a 2.1f yn rhoi gwybod i chi sut i gynhyrchu cynllun safle a chynllun draenio. Dylid cadw'r rhain gyda gweddill y cynllun yn barod i'w defnyddio yn ystod ymateb i ddigwyddiad.

Ein manylion cyswllt

Asiantaeth yr Amgylchedd
www.environment-agency.gov.uk

PENCADLYS
Rio House
Waterside Drive
Aztec West
Almondsbury
Bristol BS32 4UD
Ffôn: 01454 624 400
Ffacs: 01454 624 409

**Asiantaeth Gwarchod Amgylchedd
yr Alban**
www.sepa.org.uk

SWYDDFA GORFFORAETHOL
Erskine Court
The Castle Business Park
Stirling FK9 4TR
Ffôn: 01786 457 700
Ffacs: 01786 446 885

**Asiantaeth yr Amgylchedd
Gogledd Iwerddon**
www.ni-environment.gov.uk

PENCADLYS
17 Antrim Road
Lisburn
County Antrim BT28 3AL
Ffôn: 028 9262 3100
Ffacs: 028 9267 6054

Yng Nghymru a Lloegr, byddwch gystal â chysylltu â'r Ganolfan Genedlaethol Cysylltiadau Cwsmeriaid (NCCC) ar 08708 506 506 neu yn enquiries@environment-agency.gov.uk am fanylion ynghylch unrhyw un o'r pynciau a grybwyllir yn y ddogfen hon. Yn yr Alban neu Ogledd Iwerddon defnyddiwch y wefan ar gyfer pob rheoleiddiwr.



Yr Amgylchedd yn gyntaf: Argreffir y cyhoeddiad hwn ar bapur wedi'i wneud yn gyfan gwbl o wastraff a ddefnyddiwyd yn flaenorol. Defnyddir isgynhyrchion o wneud y mwydion a'r papur ar gyfer compostio a gwrteithiwr, gwneud sment a chynhyrchu trydan.

Environment Alliance – working together

Pollution Prevention Guidelines

Incident Response Planning: PPG21

These guidelines are produced jointly by the Environment Agency for England and Wales, the Northern Ireland Environment Agency and the Scottish Environment Protection Agency (SEPA), referred to here as ‘we’ or ‘us’. They have been written in accordance with the Code of Practice on Guidance on Regulation 2008 from the Department for Enterprise and Regulatory Reform (BERR) – reference 1.

Pollution Prevention Guidelines (PPGs) are based on relevant legislation and reflect current best practice. Following the guidelines will help you to manage your environmental responsibilities to prevent pollution and comply with the law.

If you cause pollution or allow it to occur, you may be committing a criminal offence. Should this happen, our response will be guided by our enforcement and prosecution policy.

1.0 Introduction

